**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Penodi Cadeirydd ac Aelodau anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Cyfrifoncyhoeddus@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Penodi Cadeirydd ac Aelodau anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Hydref 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011.

**Pwerau**
Nodir pwerau'r Pwyllgor yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18 (ar gael yn **www.cynulliadcymru.org**). Yn benodol, caiff y Pwyllgor ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar yr economi, a pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

Mae gan y Pwyllgor bwerau statudol penodol hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gyllideb ac archwilwyr y swydd honno.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar (Oscar)**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... 5

**Cyflwyniad** ..... 6

**Cefndir: rolau a chyfrifoldebau** ..... 7

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ..... 7

Rôl Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ..... 7

Cyfrifoldebau Ychwanegol y Cadeirydd ..... 9

**1. Cydnabyddiaeth ariannol i aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru** ..... 11

**2. Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol** ..... 13

Methodoleg ..... 13

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad** 1: Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu cydnabyddiaeth ariannol o £25,000 y flwyddyn i Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a £12,500 y flwyddyn i aelodau anweithredol eraill Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. (Tudalen 12)

**Argymhelliad** 2: Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Isobel Garner, Peter Price, David Corner, Christine Hayes a Steven Burnett yn Aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. . (Tudalen 17)

**Argymhelliad** 3: Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Isobel Garner yn Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, o blith yr Aelodau anweithredol a benodir. . (Tudalen 17)

## Cyflwyniad

1. Ar 5 Mawrth 2013, pasiodd y Cynulliad y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Mae'r Ddeddf yn nodi'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.

2. Mae'n werth nodi bod y Ddeddf yn rhoi llawer o gyfrifoldebau newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys penodi pum aelod anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd).[1] Mae'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau taliadau cydnabyddiaeth mewn cysylltiad â'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol.

3. Ar 7 Mai 2013, cytunodd Pwyllgor Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru mai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddylai gael y cyfrifoldeb cychwynnol dros wneud argymhellion:

> "dros wneud y penodiadau cyntaf i Swyddfa Archwilio Cymru, a thros delerau'r penodiadau hyn."[2]

4. Mae'n rhaid i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru fod wedi'i sefydlu erbyn mis Hydref 2013 er mwyn paratoi i ymgymryd â'i holl swyddogaethau ar 1 Ebrill 2014. Mae'r gwaith paratoi hwn yn cynnwys paratoi Amcangyfrif o Incwm a Gwariant sy'n ofynnol ar gyfer 2014-15, ar gyfer ei drafod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rheolau sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi bod yn rhaid i'r amcangyfrif gael ei gyflwyno ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 1 Tachwedd fan bellaf.[3]

5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r broses a ddilynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer llunio ei argymhellion ar benodi aelodau anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

---

[1] Yn ychwanegol at yr aelodau anweithredol a gaiff eu penodi gan y Cynulliad Cenedlaethol, caiff un aelod cyflogedig ei enwebu gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei gymeradwyo gan yr aelodau anweithredol, a dewisir y ddau arall gan falot ymysg staff Swyddfa Archwilio Cymru.
[2] Gohebiaeth gan y Llywydd, 7 Mai 2013
[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Medi 2013, Rheol Sefydlog 20.21

## Cefndir: rolau a chyfrifoldebau

**Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru**

6. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddeiliad swydd statudol sy'n gyfrifol am amrywiaeth o swyddogaethau archwilio, gan gynnwys archwilio cyfrifon y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac mae ganddo'r grym i gynnal archwiliadau gwerth am arian. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r cyrff eraill a gaiff eu harchwilio ac mae ganddo ddisgresiwn llwyr ynghylch sut y caiff swyddogaethau'r swydd honno eu harfer. Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio oddeutu £15 biliwn o wariant cyhoeddus yng Nghymru.

7. Cyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn penodi ei staff ei hun, yn dal eiddo ac yn pennu gwasanaethau eraill sy'n angenrheidiol i'w alluogi i arfer ei swyddogaethau. Cyfeiriwyd at yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff ar y cyd fel Swyddfa Archwilio Cymru.

8. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadw cyfrifoldeb personol am swyddogaethau archwilio ond ni fydd bellach yn gallu penodi staff, dal eiddo na phennu gwasanaethau.

9. Yn hytrach, caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei hail-lunio fel corff corfforaethol sy'n atebol i Fwrdd a fydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau hyn. Bydd tua 250 o staff a gyflogir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd, ynghyd ag eiddo, hawliau a chyfrifoldebau, yn trosglwyddo i Swyddfa Archwilio newydd Cymru ar 1 Ebrill 2014. Yr Archwilydd Cyffredinol fydd Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ar ei newydd wedd (bydd swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau fel corfforaeth undyn).

**Rôl Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**

10. Bydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Yn y pen draw, bydd y cyfrifoldeb dros arfer y swyddogaethau hynny, gan gynnwys rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r adnoddau y bydd eu hangen arno, yn nwylo'r Archwilydd Cyffredinol yn unig.

11. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ac, ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, am baratoi Cynllun Blynyddol ac Amcangyfrif o Incwm a Gwariant.

12. Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu adnoddau i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau, er enghraifft drwy gyflogi staff a defnyddio gwasanaethau contractwyr.

13. Bydd y Bwrdd yn gwneud ei reolau gweithdrefnol ei hun o fewn y fframwaith a bennir gan Ddeddf 2013.[4] Yn ychwanegol at y darpariaethau hynny a bennir yn Neddf 2013, rhagwelwyn y bydd y Bwrdd yn datblygu rheolau sy'n cynnal y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan). Rhagwelwn y bydd rheolau o'r fath yn sicrhau rheolaeth effeithiol o fuddiannau Aelodau'r Bwrdd, ac yn darparu ar gyfer penodi Cadeirydd dros dro, neu Is-gadeirydd, yn absenoldeb y Cadeirydd. Mae cyfrifoldebau eraill y Bwrdd yn cynnwys:

- Paratoi, adolygu a diwygio cynllun Swyddfa Archwilio Cymru yn flynyddol ar gyfer codi ffioedd, a gosod hwn (ac unrhyw adolygiad) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;[5]
- Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cod ymarfer i ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol;[6]
- Ystyried a ddylid argymell person / cwmni i'r Cynulliad Cenedlaethol i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru;[7]
- Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch paratoi neu adolygu cynllun ar gyfer dirprwyo'r gwaith o arfer ei swyddogaethau;[8] a
- Threfnu i wasanaethau neu gymorth gael eu darparu gan yr Archwilydd Cyffredinol (yn dilyn ymgynghoriad â'r Archwilydd Cyffredinol) a Swyddfa Archwilio Cymru.[9]

14. Caiff Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ddirprwyo ei swyddogaethau i unrhyw rai o'i aelodau, pwyllgorau, cyflogeion neu ddarparwyr gwasanaethau, ac eithrio ei swyddogaethau o ran paratoi'r amcangyfrif, y cynllun blynyddol, adroddiadau blynyddol ac interim, pennu rheolau gweithrefnol Swyddfa Archwilio Cymru, argymell

---

[4] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, 27
[5] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), 24
[6] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 2, 1(1)
[7] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), 34 (2)
[8] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), 18 (7)
[9] Y Ddeddf Archwilio Cyheoddus (Cymru), 19

archwilydd a phenodi person i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro.

15. Mae dyletswyddau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru i arfer holl swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru mewn modd effeithlon a chost-effeithiol.

16. Mewn cysylltiad â'r archwiliad o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, bydd dyletswydd ar aelodau'r Bwrdd i ddarparu gwybodaeth, eglurhad a chymorth y gofynnir amdano, i archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru. Gan ddilyn y drefn bresennol, bydd yr archwilydd yn parhau i gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol ond bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ran i'w chwarae wrth argymell personau addas i'w penodi.

**Cyfrifoldebau Ychwanegol y Cadeirydd**

17. Yn ogystal, bydd Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am:

- baratoi'r rheolau cychwynnol i reoli gweithdrefn Swyddfa Archwilio Cymru nes bod y Bwrdd wedi cymeradwyo ei reolau parhaol;[10]
- cyflwyno'r cyfrifon (ar gyfer 2014-15 a thu hwnt) a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru;[11]
- paratoi adroddiadau ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru: un Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o leiaf un adroddiad interim i'w baratoi rywbryd yn ystod y flwyddyn ariannol fel sy'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol;[12]
- ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, gosod y cynllun blynyddol gerbon y Cynulliad Cenedlaethol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol; [13]

---

[10] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 3, 4
[11] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, 35 (1b)
[12] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, 3 (6a a b)
[13] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), 26

- ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, gosod y cod ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.[14]

[14] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), 35, Atodlen 2, 1 (5)

# 1. Cydnabyddiaeth ariannol i aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

18. Mae'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn datgan:

> "Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas â'r person sy'n gadeirydd SAC ... [a] Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud trefniadau ar gyfer talu cydnabyddiaeth mewn perthynas ag unrhyw aelod anweithredol arall."[15]

19. Caiff cydnabyddiaeth ariannol Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ei chodi yn erbyn Cronfa Gyfunol Cymru, a'i thalu allan ohoni. Caiff cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau anweithredol eraill ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru.[16]

20. Penderfynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei bennu yn £25,000 am y tro ar gyfer Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru (ar sail 4 diwrnod y mis) a £12,500 ar gyfer aelodau anweithredol eraill Swyddfa Archwilio Cymru (ar sail 2-3 diwrnod y mis).

21. Mae'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru a *pherson priodol sydd â throsolwg o benodiadau cyhoeddus* ynghylch y lefelau cydnabyddiaeth ar gyfer yr aelodau anweithredol / Cadeirydd.[17]

22. Roedd y ddwy garfan o'r farn bod y lefel o gydnabyddiaeth yn rhesymol. Dywedodd y Prif Weinidog:

> "I have considered the supporting evidence you provided. I noted, in particular, the comparison to the National Audit

[15] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, Rhan 2, 7(1) a 7(4).
[16] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, Rhan 2, 7(3) a 7(5).
[17] Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Fodd bynnag, oherwydd gostynigad yn nifer y staff, y farn yno oedd nad yw'n bosibl i'r swyddogion hynny roi cyngor i bobl ynghylch penodiadau, ac eithrio'r penodiadau hynny a gaiff eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. O ganlyniad (ac ar ôl cael cyngor Gwasanaeth Cyfreithiol y Cynulliad), barnwyd ei bod yn rhesymol penderfynu mai'r person priodol fyddai Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Office where the Chair receives remuneration of £50,000 per annum and the members £20,000 per annum for a time commitment of two days a month. I also took into account the current rates of remuneration for WGSBs and the other evidence you provided. I also took into account the current rates of remuneration for WGSBs and the other evidence you provided."[18]

**Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu cydnabyddiaeth ariannol o £25,000 y flwyddyn i Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a £12,500 y flwyddyn i aelodau anweithredol eraill Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.**

---

[18] Prif Weinidog Cymru, Penodi aelodau anweithredol i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, 5 Awst 2013.

# 2. Penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol

### Methodoleg

23. Nododd y Pwyllgor mai mater i'r Cynulliad, yn hytrach nag i Gomisiwn y Cynulliad, yw penodi Cadeirydd ac aelodau anweithredol. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol mai gwir annibynniaeth ac annibynniaeth dybiedig Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyrff y mae'n eu harchwilio, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad, yw'r ystyriaeth bwysicaf. Am y rhesymau hynny, roedd y Pwyllgor o'r farn bod yn rhaid i'r penodiad gael ei lywio, a'i fod yn amlwg yn cael ei lywio, gan y Cynulliad, yn hytrach na Chomisiwn y Cynulliad.

24. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol hefyd bod y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn nodi'n benodol bod yn "rhaid i benodiadau a wneir o dan is-baragraff (1) gael eu gwneud ar gasgliadau cystadleuaeth deg ac agored."[19]

### *Hysbysebu*

25. Hysbysebodd y Pwyllgor am ymgeiswyr a oedd â diddordeb mewn gwneud cais i fod yn Aelodau o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (gydag un ohonynt yn cael ei benodi'n Gadeirydd) ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd ar gael i'r cyhoedd. Rhoddwyd hysbysebion ychwanegol:

- Ar wefan Llywodraeth Cymru
- Ar wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet
- Yn y Western Mail
- Yn y Daily Post
- Yn The Guardian a'r Guardian Online; ac
- Yn Public Finance ar-lein

26. Nododd yr hysbyseb y dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod ganddynt y profiad perthnasol i gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swydd hon.

- Profiad o weithio ar lefel Bwrdd mewn sefydliadau cymhleth, naill ai yn y sector preifat neu gyhoeddus;

[19] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, Rhan 2, 4(2).

- Dangos dealltwriaeth o weithio yn unol ag egwyddorion Nolan;
- Profiad o gyflawni amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaeth, ac yn sail i hyn bydd:
    - y gallu i feddwl mewn modd cysyniadol ac arloesol
    - sgiliau diagnostig a dadansoddi aeddfed;
    - gallu cadarn i bwyso a mesur yr hyn sy'n foesegol; a'r
    - gallu i ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth;
- Profiad o roi arweiniad a chyngor clir a chytbwys;
- Sgiliau rhyngbersonol cadarn ac ethos o weithio ar y cyd fel tîm.

27. Roedd yr hysbyseb hefyd yn nodi y byddai'n ddymunol i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth neu brofiad o archwilio cyhoeddus, rheolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol, rheoli risg, adnoddau dynol neu reoli yn y sector cyhoeddus. Nododd yr hysbyseb fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gobeithio penodi aelodau anweithredol a fyddai, gyda'i gilydd, yn cwmpasu ystod eang o brofiad perthnasol.

28. Dywedodd yr hysbyseb hefyd y dylai Cadeirydd y Bwrdd allu dangos:

- Bod ganddo'r bersonoliaeth a'r presenoldeb sy'n angenrheidiol i ennyn parch y Bwrdd cyfan, i'w ysbrydoli ac i ddylanwadu arno; a
- Phrofiad blaenorol o gadeirio Byrddau ar lefel uchel.

29. Cafwyd cyfanswm o 82 o geisiadau am y swyddi hyn. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r holl bobl hynny a wnaeth gais, gan fod hyn wedi caniatáu proses ddethol o blith ymgeiswyr o safon uchel.

### *Sifft*

30. Er mwyn hwyluso proses ddethol ddeinamig, penododd y Pwyllgor banel dethol i ymgymryd â'r gwaith o sifftio a dethol ymgeiswyr. Wrth benodi'r panel dethol, roedd y Pwyllgor am gynnwys:

- Un cynrychiolydd gwleidyddol o wrthbleidiau Llywodraeth Cymru;
- Un cynrychiolydd gwleidyddol o'r blaid sy'n llywodraethu;

- Un cynrychiolydd â phrofiad o waith Byrddau Archwilio, ond a oedd yn annibynnol ar Swyddfa Archwilio Cymru.

31. Roedd y Panel Dethol yn cynnwys:

- Darren Millar AC;
- Jenny Rathbone AC;
- Gary Martin, Cadeirydd Bwrdd Cynghori Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

32. Cafodd y Panel Dethol gyngor ac arweiniad ynghylch sifftio, cyfweld a chyfle cyfartal gan Adran Adnoddau Dynol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

33. Trafododd y Panel Dethol gais ysgrifenedig yr ymgeiswyr yn erbyn y cymwyseddau a nodwyd yn yr hysbyseb swydd. Dewisodd y Panel Dethol 16 o ymgeiswyr i'w cyfweld.

### *Cyfweliadau ac argymhellion*

34. Cynhaliodd y Panel Dethol gyfweliadau â 14 o ymgeiswyr ar 11-12 Medi. Cynhaliwyd dau gyfweliad arall ar 2 Hydref, gyda dau ymgeisydd. Roedd y cyfweliadau'n seiliedig ar benderfynu ar addasrwydd yr ymgeiswyr ar gyfer y swyddi, yn erbyn y cymwyseddau a nodwyd yn yr hysbyseb swydd gwreiddiol.

35. Yn dilyn cyfweliad terfynol, penderfynodd y Panel Dethol ar yr ymgeiswyr a ffafriwyd ganddo ar gyfer Cadeirydd a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar 2 Hydref.

36. Ar 8 Hydref, cymeradwyodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ymgeiswyr a gafodd eu hargymell gan y Panel Dethol a phenderfynwyd ar gynnwys yr adroddiad hwn. Mae proffilau'r ymgeiswyr a argymhellwyd i'w gweld isod:

- **Isobel Garner (Cadeirydd).** Ar hyn o bryd, mae Isobel yn aelod anweithredol o Fwrdd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn adrodd i Weinidogion y DU. Mae'n uwch gynghorydd i Newton Europe, yn rhoi cyngor ar faterion llywodraeth leol. Roedd yn Gomisiynydd Gwasanaethau Addysg ym Mlaenau Gwent (Medi 2011 – Rhagfyr 2012) ac mae ganddi brofiad o weithredu ar lefel Weithredol Uwch (ar hyn o bryd fel

Cyfarwyddwr Isotoro Ltd a bu'n Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am wyth mlynedd).

- **Peter Price (Aelod o'r Bwrdd).** Peter oedd Cadeirydd Pwyllgor Rheolaeth Gyllidebol Senedd Ewrop. Mae wedi dilyn gyrfaoedd olynol ym maes y gyfraith a gwleidyddiaeth, gan symud ymlaen i bortffolio o swyddi anweithredol, ymgynghorol a barnwrol. Bu'n Gyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth GIG am yr wyth mlynedd diwethaf, gyda chyfres o swyddi ym maes iechyd yn y gorffennol, gan gynnwys rôl cyfarwyddwr. Bu'n aelod anweithredol o Fyrddau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan gynnwys bod ar Fwrdd Llywodraethwyr Prifysgol am naw mlynedd.
- **David Corner (Aelod o'r Bwrdd).** Mae David yn gyfrifydd cymwysedig gyda dros 25 mlynedd o brofiad yn helpu cyrff cyhoeddus i wella eu perfformiad. Bu'n aelod o fyrddau a chorfforaethau llawer o sefydliadau a phrosiectau gwahanol, gan gynnwys bod yn Gyfarwyddwr Materion Corfforaethol yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae wedi gweithio gyda Byrddau yn ddiweddar i ddatblygu fframweithiau asesu perfformiad ar gyfer Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol a Chynghorau Sgiliau Sector.
- **Christine Hayes (Aelod o'r Bwrdd).** Ar hyn o bryd, mae Christine yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Swyddfa Archwilio Cymru, yn Ymddiriedolwr i AgeCare (sefydliad elusennol sy'n gofalu am bobl sydd â dementia), ac yn Llywodraethwyr un o Ymddiriedolaethau GIG Lloegr. Mae wedi gweithio ar lefel bwrdd am 10 mlynedd fel Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio yn y GIG yng Nghymru. Mae wedi cael gyrfa o 40 mlynedd yn y GIG, fel nyrs, bydwraig ac ymarferydd gweithredol yn arbenigo ym meysydd ansawdd, effeithiolrwydd clinigol, profiadau cleifion a datblygu a chynnal partneriaethau effeithiol.
- **Steven Burnett (Aelod o'r Bwrdd).** Actiwari yw Steven Burnett o ran galwedigaeth, ac mae ganddo dros 13 mlynedd o brofiad fel Prif Weithredwr, gan gynnwys i Swiss Life UK plc a'r Royal Liver Assurance Society. Ar hyn o bryd, mae'n aelod anweithredol o'r Liverpool Women's NHS Foundation Trust; Pwyllgor Adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Asiantaeth

Cartrefi a Chymunedau. Mae ganddo brofiad blaenorol o rolau anweithredol o fewn cwmnïau, yn fewnol fel Cadeirydd grŵp o is-gwmnïau a hefyd yn allanol fel Cyfarwyddwr Anweithredol y London Scottish Bank plc a Chadeirydd Cymdeithas yr Yswirwyr Cydfuddiannol.

**Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Isobel Garner, Peter Price, David Corner, Christine Hayes a Steven Burnett yn Aelodau anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.**

37. Mae'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn datgan mai dim ond ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru y gellir penodi Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.[20]

38. Yn dilyn penderfyniad y Panel Dethol ynghylch yr ymgeiswyr a ffefrir ganddo ar gyfer Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyghorwyd â Phrif Weinidog Cymru ynghylch penodi Cadeirydd. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, dywedodd y Prif Weinidog nad oedd ganddo unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch yr ymgeisydd a argymhellwyd.[21]

**Rydym yn argymell bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penodi Isobel Garner yn Gadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, o blith yr Aelodau anweithredol a benodir.**

[20] Y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), Atodlen 1, Rhan 2, 5(2).
[21] Prif Weinidog Cymru, 7 Hydref 2013